

Cofion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Norman a theulu y diweddar Roberta Hughes (Groes). Yn dilyn cyfnod o waeledd, bu farw Roberta yn ei chartref nos Sul. Hyderwn y bydd Duw yn agos at y teulu ddydd yr angladd, ac felly am y diwrnodau a'r wythnosau sy'n dilyn.

Danfônwn ein cofion hefyd at Elsa Evans (Llanefydd), a Menna Streeter (Henllan) sy'n yr Inffirmari ar hyn o bryd, ac at John G. Jones (Llansannan) sydd yn ysbty Gobowen yn dilyn llaw-driniaeth. Hyderwn y bydd y tri yn ymwybodol o agosrwydd yr Arglwydd, ac y byddant hefyd yn adnabod adferiad ar hyn.

Hyn ag arall

- Dymunwn yn dda iawn heddiw i Aneurin wrth iddo gael ei gomisiynu yn Weinidog Cynorthwyol yn y Fro. Hyderwn y bydd yn amser o fendith bersonol iddo, ac felly hefyd i'w deulu. Byddwch yn llawenhau hefyd o ddeall fod y blaenoriaid wedi cytuno i wneud cais i'r Henaduriaeth am ganiatad i symud ymlaen i alw gweinidog newydd i'r Fro.
- Gair i hysbysu aelodau Llanefydd a Cefn Berain fod y Sasiwn wedi rhoi caniatad i werthu Gwyddfôr. Mi fydd y blaenoriaid yn symud ymlaen yn awr i drefnu hynny. Am fwy o wybodaeth – holwch!!!
- Mae tua hanner dwsin o gopïau o Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn ar ôl yma yn y tŷ. Os hoffech un am bris gostyngol – y cyntaf i'r felin...!
- Byddai'n gymorth petai'r ysgrifenyddion yn gadael i Mair wybod am drefniadau eich gwasanaethau/digwyddiadau Nadoligaidd cyn diwedd y mis hwn er mwyn rhoi trefn ar galendar Aneurin a minnau.

I ddod

- Cyngerdd Nadolig (dan olau cannyll) gydag 'Enfys' yng Nghapel Cefn Meiriadog ar Nos Sul, Rhagfyr 5ed am 8.00. Mynediad trwy docyn: oedolion £6, plant ysgol £2 - ar gael gan aelodau'r capel neu 07899 951850. Yr elw tuag at Tŷ Robert Owen, Uned y Galon, Ysbyty Broad Green, Lerpwl.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21^{ain} Tachwedd 2010

Gwasanaeth Comisiynu
y Parchedig
Owain Aneurin Owen

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i'r oedfa arbennig yma y bore 'ma. Yn y cwbl, gweddiwn y bydd yr Arglwydd ei hun yn mynd o flaen Aneurin, ac o flaen pawb sy'n bresennol yn yr oedfa bore 'ma. Wrth ddod i gomisiynu Josua i'w waith, dyna oedd anogaeth Moses iddo - *Bydd yr ARGLWYDD yn mynd o' th flaen, a bydd ef gyda thi; ni fydd yn dy adael nac yn cefnu arnat. Paid ag ofni na dychryn.* Deuteronomium 31:8

Mae'r busnes yma o alwad i waith yn un reit ddiddorol. Yn wahanol i'r bobl hynny sy'n credu mai ond 'gweinidogion' neu weithwyr Cristnogol sy'n cael eu 'galw', mae'r Beibl yn darlunio sefyllfa gwbl wahanol. Meddyliwch, mae nifer fawr o arwyr y Beibl yn bobl oedd yn dal swyddi 'seciwlar', ac eto yn bobl oedd Duw wedi eu galw. Ffermwr oedd Abraham, Gwas Sifil oedd Joseff. Er ein bod yn adnabod Daniel fel proffwyd, ymgynghorydd personol i'r brenin oedd ei swydd, a hynny ymhell i mewn i'w wythdegau. Daeth Dafydd yn filwr proffesiynol cyn dod yn rheolwr ei wlad. Biwrocrat oedd Nehemeia a ddaeth yn rheolwr prosiect ail-adeiladu dinas Jerwsalem. A rhag inni esgeuluso gwagedd, mae'r wraig rinweddol y cyfeirir ati yn Diarhebion 31 yn cael clod am fod ynglŷn â nifer o gynlluniau mentrus, mewn eiddo a thecstilau wrth ymarfer ei gwaith o fod yn rheolwr tŷ!! Tebyg nad ydym yn credu fod y rhain i gyd yn gwastraffu eu hamser mewn swyddi 'seciwlar'. Petai hynny yn wir, dylem hefyd ddod i'r casgliad fod Iesu wedi treulio bron i 90% o'i fywyd daearol yn gwastraffu amser gyda llif, morthwyl a chelfi!

Mae'r syniad o fywyd seciwlar a bywyd crefyddol fel dau fyd ar wahân, yn perthyn nid i Gristnogaeth, ond i athroniaeth y Dwyrain, dan ddylanwad pobl fel Confiwcius, ac yn y Gorllewin i ddeuoliaeth a ddysgwyd yn bennaf gan y Groegiaid. Credai'r rhain fod gwaith gydag unrhyw elfennau materol yn rhy isel i'r duwiau, ac felly hefyd i bobl o allu, oedd yn medru fforddio ymroi i athronyddu a chrefyddu. Arweiniodd hyn at rannu popeth i ddwy ran, y byd materol (drwg) a'r byd ysbrydol (da).

Yn y Beibl, o'r dechrau yn hanes y Creu, mae Duw ei hunan yn y busnes o 'weithio gyda'i ddwylo'. *Yna lluniodd yr ARGLWYDD Dduw ddyn o lwch y tir. A phlannodd yr ARGLWYDD Dduw ardd yn Eden.* Tebyg mae'r crynodeb gorau o'r hyn ddylai nodweddu ein deall o alwedigaeth yw geiriau Paul wrth Gristnogion Colosae. *Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, gweithiwch â'ch holl galon, fel i'r Arglwydd, ac nid i neb arall. Gwyddoch mai oddi wrth yr Arglwydd y byddwch yn derbyn yr etifeddiaeth yn wobr. Gwasanaethwch Grist, eich Meistr chwi.* Colosaiad 3:23-24.

Wrth inni gomisiynu Aneurin i'r gwaith yma heddiw, beth am ail-ystyried ein gwaith ni? Mae'r ymadrodd Cymraeg, galwedigaeth yn un cyfarwydd inni. Mae'n deillio o'n hetifeddiaeth Feiblaidd sy'n gweld pob gwaith fel galwad yn hanes Cristnogion. Mae'n rhoi urddas ar bob gwaith, yn rhoi gwerth i bob gwaith, ac yn rhoi cyfrifoldeb i bob gweithiwr. Sylwch eto fel mae Paul yn gorffen wrth siarad gyda phob Cristion yn Colosae, (nid dim ond yr arweinwyr!) - *Gwasanaethwch Grist, eich Meistr chwi.*

Cyhoeddiadau

Heddiw – Oedfa arbennig i'r Fro gyfan

Gwasanaeth Comisiynu y Parch. Owain Aneurin Owen

ynghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

am 10.30

*Bydd cyfle i'r plant fynd i'r Ffestri ar gyfer y Gorlan a'r Gorlan Fach
yn ystod ail ran y gwasanaeth a dod yn ôl i mewn i'r capel
ar gyfer gwasanaeth y Comisiwn.*

*Casgliad tuag at Hosbis i Gleifion HIV/Aids Ysbyty Durtlang, Mizoram a Hosbis San
Cyndeyrn, Llanelwy*

Darperir lluniaeth ysgafn yn y Ffestri i bawb yn dilyn yr oedfa.

Y Fro

Sul yma Ni chynhelir **Oedfa i'r Fro** heno.

Llun Grwpiau **Adnabod** Aneurin, Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00

Mawrth **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30

Mercher **Adnabod beth yw Cristnogaeth go iawn** yn Llansannan am 8.00
Mi fydd criw **C.I.C. yn mynd i lawr i Landudno** i ymweld â'r caffi
Cristnogol sydd yn cael ei gynnal yno ar gyfer ieuencid y dre. Mwy o
wybodaeth gan Sarah, Elinor, neu Huw.

Iau **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.

Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn cyfarfod yng Nghapel Tabernacl,
Rhuthun am 6.00

Cwrdd Chwarter yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00.

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan **am 6.00 (sylwch ar yr amser)**.
Arweinir yr oedfa gan Rhun Murphy, bydd Meirion yn pregethu a
bydd paned i bawb **yn dilyn yr oedfa**.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau
i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

Mercher Noson Y Gymdeithas Lenyddol gyda Mr. Robert Owen (Broad Green,
Lerpwl) yn y Ffestri am 7-30 yr hwyr.

Sul nesaf Bydd Mr Gron Ellis yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 2.00 a'r
Parch John Barnett yn arwain oedfa yng Nghapel Hyfrydle am 3.15.

Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Hywel Edwards yn arwain yr oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul
y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 2.00.
Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.

Tanyfron a Nantglyn

Mercher Cyfarfod Chwirydd Tanyfron am 7.30. Y gŵr gwadd fydd Neville
Hughes (Hogiau Llandegai).

Sul nesaf Bydd Mr Arwel Roberts yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Henllan am 10.00. Bydd
Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn
Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd
Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn
Berain a'r oedolion am 2.00. Gwneir casgliad arbennig yn ystod
oedfaon y dydd yn Llanefydd tuag at Hosbis San Cyndeyrn.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i

Meirion - ✉ meirion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870601 📞 07554 005423

erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf